Beibl i Blant
yn cyflwyno

# Iesu yr Athro Mawr

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus

addaswyd gan: E. Frischbutter; Sarah S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo
neu argraffu'r stori hon, ar yr amod
nad ydych yn ei gwerthu.


Roedd
Iesu yn athro gwych – y
gorau. Roedd tyrfaoedd
yn dod i wrando arno.


Dysgodd
Iesu nhw i ddangos
trugaredd, a bod yn
dda ac yn garedig.

Byddai
pobl eraill efallai
yn eu casáu a'u brifo,
ond byddai Duw yn
gofalu amdanyn nhw.

Dysgodd
Iesu lawer
o bethau.

Dywedodd fod pobl Dduw yn dod â goleuni i'r byd fel mae cannwyll yn rhoi golau mewn tŷ.

Mae cael
cannwyll
mewn
ystafell
yn gwneud
gwahaniaeth
mawr!

Roedd y bobl oedd yn gwrando ar Iesu yn credu mewn talu nôl, "llygad am lygad, a dant am ddant."



Ond fe wnaeth Iesu ddysgu caredigrwydd, maddeuant a chariad, hyd yn oed wrth ddelio gyda gelynion.



Yn amser Iesu, roedd rhai pobl yn actio fel petaen nhw'n bobl dduwiol iawn.

Pan fydden nhw'n rhoi arian i bobl dlawd, fe fydden nhw'n trefnu i rywun ganu trwmped er mwyn i bawb sylwi.

“Peidiwch â gwneud sioe pan fyddwch yn rhoi. Bydd Duw yn eich gwobrwyo,” meddai Iesu.

Dywedodd Iesu yr un peth am weddi.



Roedd rhai pobl yn gweddïo ar gornel stryd er mwyn i bobl eraill eu gweld a'u clywed.



Doedd dim ots ganddyn nhw am Dduw.



Roedden nhw am i bobl feddwl yn uchel amdanyn nhw. Enw Iesu ar y bobl hyn oedd rhagrithwyr – pobl sy'n actio.



Byddai Iesu'n aml yn defnyddio byd natur wrth ddysgu. Er enghraifft, pwyntiodd at adar.

"Mae eich Tad yn y nefoedd yn rhoi bwyd iddyn nhw," meddai. "Peidiwch poeni. Bydd Duw yn rhoi bwyd i chi hefyd."

Aeth Iesu ymlaen i ddweud, "Doedd gan y brenin Solomon cyfoethog ddim gwisg mor grand â'r lili.

Os ydy Duw yn gofalu am flodau gwyllt, bydd yn gofalu amdanoch chi hefyd."

Roedd Iesu am ddysgu pobl i drystio'r Duw sy'n darparu popeth sydd ei angen.

“Os ydych chi’n beirniadu person arall, mae fel tynnu sbecyn o lwch llif o’i lygad pan mae gennych chi drawst o bren yn sticio allan o’ch llygad eich hun”.

Mae'n siŵr fod pobl wedi chwerthin. Ond roedden nhw'n gorfod meddwl am y neges.



Dywedodd Iesu y dylai pobl ofyn i Dduw am help. Ydy tadau yn rhoi carreg i'w plant pan mae'n nhw'n gofyn am fara?



Nac ydyn! Mae nhw'n rhoi pethau da. Mae Duw hefyd yn rhoi pethau da i bawb sy'n barod i ofyn.

Fe wnaeth Iesu,
yr athro mawr,
rybuddio pobl am
athrawon ffug.

“Mae nhw’n gwisgo
fel defaid diniwed,”
meddai Iesu, “ond
bleiddiaid ydyn nhw!”

Dywedodd mai'r ffordd o adnabod athrawon ffug ydy edrych sut mae nhw'n byw.

Dywedodd Iesu stori am bobl sy'n gwrando ar Dduw.

Mae nhw fel y dyn call adeiladodd ei dŷ ar graig. Cododd storm ofnadwy. Ar ddiwedd y storm, roedd

y tŷ yn saff.

Ond fe wnaeth y dyn dwl adeiladu ei dŷ ar dywod.



Pan darodd y storm yn ei erbyn, syrthiodd y tŷ achos fod y sylfeini yn wan.  Mae pobl sydd ddim yn gwrando ar Dduw fel y dyn dwl yna.



Roedd y tyrfaoedd yn rhyfeddu at eiriau Iesu. Doedden nhw ddim wedi clywed y fath bethau erioed o'r blaen.

Roedden nhw'n gwybod bellach – rhaid gwrando ar Dduw ac ufuddhau iddo bob dydd.

Iesu yr Athro Mawr

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 5-7, Luc 6

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16